O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 339 (Cy. 56)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Llanrwst, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 2012

Gwnaed	*9 Chwefror 2012*
Yn dod i rym	*20 Chwefror 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd y A470 Maentwrog i Fan i'r Dwyrain o Gonwy (y cyfeirir ati yma wedi hyn "y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 84(1) a (2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi**(1)** (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1984"), ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:-

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Chwefror 2012. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Llanrwst, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 2012.

2. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau hynny o gefnffordd yr A470 a elwir Ffordd Berth Ddu, yn Llanrwst, Gwynedd sy'n ymestyn tua'r de-ddwyrain o bwynt 50 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd fynediad i'r eiddo a elwir 'Plas Brith' i bwynt 70 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r Ffordd Sirol ddiddosbarth, ddienw sy'n arwain at y B5427 a Melin y Coed.

3. Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Llanrwst, Gwynedd) (Dileu Cyfyngiadau) 1995**(2)** drwy hyn wedi ei ddirymu.

4. Mae Gorchymyn (Amrywio) Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Llanrwst, Gwynedd) (Dileu Cyfyngiadau) 1995 2000**(3)** drwy hyn wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru